

Elin Jones AS
Y Llywydd

16 Mawrth 2021

Annwyl Lywydd,

Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: 'Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn'

Mae'n bleser gennyf anfon copi dan embargo atoch o adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn'. Caiff yr adroddiad ei osod yfory, 17 Mawrth, a'i drafod ar 24 Mawrth. Fel y gwelwch, rydym wedi gwneud dau argymhelliad i Bwyllgor Busnes y Chweched Senedd:

Argymhelliad 13. Dylai Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd sicrhau bod strwythur Pwyllgor y Senedd yn hwyluso gwaith craffu effeithiol ar ddeddfwriaeth fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a materion eraill sy'n pontio meysydd polisi a phortffolios Gweinidogol.

Argymhelliad 14. Dylai Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd roi ystyriaeth benodol i sut y dylid ymgymryd â gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chyfeirio'r corff hwnnw o waith at Bwyllgor neu fforwm priodol yn unol â hynny.

Byddwn yn ddiolchgar pe bai ymateb Pwyllgor Busnes y Chweched Pwyllgor yn cael ei gyfeirio at Gadeirydd newydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Yn gywir,



Nick Ramsay AC,
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddArchwilio@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddPAC@senedd.wales

☎ 0300 200 6565